OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 1492

## Rheoliadau Llaeth Yfed (Cymru) 2010

**Cymhwyso darpariaethau Deddf 1990**

**7.**—(1) Mae darpariaethau Deddf 1990 a nodwyd ym mharagraff (3) yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn, rhaid i unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau hynny at Ddeddf 1990 neu at Ran o Ddeddf 1990 gael ei ddehongli fel cyfeiriad at y Rheoliadau hyn.

(3) Dyma'r darpariaethau—

(a) adran 2 (ystyr estynedig "sale" etc.)(**1**);

(b) adran 3 (rhagdybiaethau bod bwyd wedi ei fwriadu i bobl ei fwyta);

(c) adran 20 (tramgwyddau oherwydd bai person arall);

(ch) adran 21 (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy)(**2**);

(d) is-adran (8) o adran 30 (dadansoddi etc. samplau);

(dd) adran 33 (rhwystro etc. swyddogion);

(e) is-adrannau (1) i (3) o adran 35 (cosbi tramgwyddau) i'r graddau y mae'r is-adrannau'n ymwneud â thramgwyddau o dan is-adrannau (1) a (2) o adran 33(**3**);

(f) adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol); ac

(ff) adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll).

(**1**) Mae adran 2 wedi ei diwygio gan adran 40(1) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999, ac Atodlen 5, paragraffau 7 ac 8 iddi (p. 28).
(**2**) Diwygiwyd adran 21 gan O.S. 2004/3279.
(**3**) Diwygiwyd adran 35(3) gan O.S. 2004/3279.